## Sut bydd fy manylion yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn gyfrinachol?

Bydd eich manylion yn cael eu cadw ar system gyfrifiadurol ddiogel a byddwn yn rheoli, monitro ac archwilio unrhyw fynediad iddo. Mae meddygfeydd teulu yn y Clwstwr wedi llofnodi cytundeb sy'n cadarnhau y bydd staff yn dilyn rheoliadau llym wrth gael mynediad at eich manylion.

Bydd aelodau staff yn mynychu hyfforddiant rheolaidd i sicrhau bod eich manylion yn ddiogel ac yn gyfrinachol, yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data.





**Os hoffech unrhyw unrhyw wybodaeth ychwanegol neu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am eich cofnodion, gofynnwch i siarad â Rheolwr y Feddygfa.**

# Clystyrau Gofal Sylfaenol; *Mynediad i'ch Cofnodion Meddygol*

Mae grwpiau o feddygfeydd teulu wedi cael eu sefydlu ledled Cymru i sicrhau bod anghenion cleifion yn cael eu diwallu yn y ffordd orau posibl. Gelwir y grwpiau hyn yn 'Glystyrau Gofal Sylfaenol'.

Bydd meddygon teulu'n cydweithio â nyrsys, fferyllwyr a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill, er enghraifft ffysiotherapyddion, er mwyn rhannu eu llwythi gwaith.

Bydd y dull gwaith hwn yn hyrwyddo gwell cysondeb o ran eich gofal chi fel claf, ac yn sicrhau gwell mynediad at wasanaethau.

Yn ogystal, yn y dyfodol, mae'n bosibl y byddwch yn gallu derbyn gwasanaethau oedd yn cael eu darparu'n flaenorol mewn ysbyty.



# Pwy fydd yn gallu cael mynediad at fy nghof-nodion meddygol?

Ym mhob clwstwr, bydd gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n cyfrannu at eich gofal yn gallu cael mynediad at eich cofnodion meddygol.

Efallai bydd fferyllwyr yn cael mynediad at eich cofnodion er mwyn adolygu presgripsiynau neu ateb unrhyw ymholiadau am feddyginiaeth.

Yn ogystal, bydd staff derbynfeydd yn gallu cael mynediad at gofnodion er mwyn gwneud tasg-au fel prosesu presgripsiynau, darparu canlyn-iadau profion a chyfarwyddo cleifion at weith-wyr iechyd proffesiynol priodol.

Bydd pob aelod staff sy'n cael mynediad i'ch cofnodion yn gweithio i feddygfa o fewn y Clwstwr neu i'r Bwrdd Iechyd Lleol.

# Pryd fydd fy manylion yn cael eu rhannu?

Byddwn yn rhannu eich manylion dim ond gydag aelodau staff sy'n gweithio yn y Clwstwr (gan gynnwys staff y Bwrdd Iechyd sy'n gweithio yn y gymuned) sy'n eich trin chi neu sy'n helpu i ofalu am-danoch.

Ni fyddwn yn rhannu eich manylion gyd-ag unrhyw un arall heb eich caniatâd, ar wahân i mewn amgylchiadau eithriadol (hynny yw, sefyllfa argyfyngus) neu os oes rheswm cyfreithiol dros wneud.

# Sut ydw i'n gallu cael mynediad at fy nghofnodion meddygol?

Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, mae hawl gennych i gael mynediad at y manylion sydd gan y feddygfa amdanoch, ac i'w diwygio os nad ydynt yn gywir. Os hoffech chi gyflwyno cais, cysylltwch â'ch meddygfa.

# Manteision rhannu eich gwybodaeth gyda'r Clwstwr

- Mynediad cynt i weithwyr iechyd proffesiynol.
- Ni fydd angen i chi ail-esbonio eich hanes meddygol i'r staff sy'n gofalu amdanoch.
- Byddwch yn parhau i gyfrannu at un-rhyw benderfyniadau am eich gofal.
- Bydd ystod ehangach o leoliadau ar gael i gynnal ymgynghoriadau.
- Bydd ystod ehangach o wasanaethau ar gael i chi.

